

BARDD: IWAN LLWYD

CERDD AR Y FANYLEB: ANEIRIN

Cyd-destun y Bardd



Ganed Iwan Llwyd yn 1957 yng Ngharno, Powys. Gweinidog oedd ei dad, Y Parch Dafydd Lloyd Williams ac roedd ei fam, Mrs Peggy Williams, yn athrawes. Symudodd y teulu am gyfnod i Dal-y-bont yn Sir Conwy cyn ymgartrefu ar stad Eithinog ym Mangor, o'r lle'r aeth Iwan Llwyd i Ysgol Gymraeg Sant Paul ac yna i Ysgol Uwchradd Friars.

Aeth ymlaen wedyn i'r brifysgol yn Aberystwyth i astudio'r Gymraeg gan aros i wneud MA mewn barddoniaeth Gymraeg y canol oesoedd. Gwelwn felly fod ganddo lawer o wybodaeth am waith beirdd Cymru ar hyd y canrifoedd a gwelwn maes o law, fod y syniad o barhau'r traddodiad yn un pwysig iddo.

Treuliodd ei yrfa bron yn gyfan yn gweithio'n annibynnol fel bardd ac awdur, ac roedd galw mawr arno i gynnal gweithdai mewn ysgolion. Roedd wrth ei fodd yn tiwtora ar gyrsiau barddoniaeth ac roedd ganddo ddawn arbennig i gysylltu gyda chynulleidfau ac ysgogi plant a phobl ifanc i ysgrifennu cerddi. Ar wahân i farddoni, un o'i brif ddiddordebau oedd canu'r gitâr fâs. Ar ddechrau'r 1980au bu'n aelod o'r grŵp *Doctor* ac yna'n aelod o'r grŵp poblogaidd *Geraint Lŷgreen a'r Enw Da*. Byddai'n chwarae weithiau gyda Steve Eaves hefyd.

Mae ei frawd, Llion Williams, yn actor adnabyddus, ac roedd gan Iwan Llwyd hefyd ddawn 'perfformio' a byddai'n gwybod yn union sut i swyno cynulleidfau o bob oed wrth ddatgan ei gerddi. Roedd Iwan Llwyd o'r farn bod barddoniaeth yn perthyn i'r un traddodiad â *roc* 'n *rôl* a *jazz* a'r *blues* gan mai nod y cyfan yw cysylltu gyda chynulleidfau. Roedd hefyd wrth ei fodd yn gweithio gydag artistiaid a ffotograffwyr fel Iwan Bala, Anthony Evans ac Aled Rhys Hughes i gyfuno cerddi a lluniau, a darlledwyd tair cyfres ganddo ar gyfer S4C yn dilyn ei deithiau barddol.

BARDD: IWAN LLWYD

CERDD AR Y FANYLEB: ANEIRIN

Enillodd Gadair yr Urdd yn 1980 ac yna, ddeng mlynedd yn ddiweddarach, enillodd Goron Eisteddfod Genedlaethol 1990 am bryddest ar y testun *Gwreichion*. Enillodd hefyd wobwr Llyfr y Flwyddyn yn 1998 gyda'r gyfrol *Dan Ddylanwad* ac yn 2004 daeth ei gasgliad *Be Di Blwyddyn Rhwng Ffrindiau?* ar restr hir yr un gystadleuaeth.

Rôl y Bardd

Gallwn ni ddychmygu y byddai ennill Coron yr Eisteddfod Genedlaethol wedi bod yn arwyddocaol i Iwan Llwyd fel un a welai bwysigrwydd parhau'r traddodiad barddol, ond tu hwnt i'r elfen seremonïol, roedd yn gwbl ymwybodol o rôl draddodiadol y bardd fel 'y cyfarwydd', sef yr un a fyddai'n cofnodi digwyddiadau cyfoes yn llysoedd y tywysogion. Mewn traethawd doethuriaeth ar waith Iwan Llwyd, mae Manon Wyn Davies yn ein hatgoffa bod y berthynas rhwng gwleidyddiaeth a llenyddiaeth yn un hen yn ein traddodiad ni, ac mae'n dweud am Iwan Llwyd:

Fel yr oedd y beirdd yn cefnogi Glyndŵr yn ystod ei wrthryfel, neu fel yr ymatebodd llenyddiaeth Gymraeg, i raddau dadleuol, i'r ddau ryfel byd, i garcharu Saunders Lewis ac i foddï Tryweryn, cyfrannodd Iwan yntau'n sylweddol at ganon y canu gwleidyddol Cymraeg. Bu'n ymateb i refferendwm 1979, yn trafod sefyllfa fregus Cymru wrth iddi rannu ffin â grym dylanwadol Lloegr; rhoddodd sylw i'r iaith ac i Thatcheriaeth a sefyllfa economaidd y 1980au. Gwelai fod lleisio dyheadau pobl a chofnodi digwyddiadau gwleidyddol yn rhan o ddyletswydd beirdd a llenorion pob cyfnod, a chredai fod modd i llenyddiaeth ddylanwadu ac ysgogi newid.

https://pure.aber.ac.uk/portal/files/10677221/Davies_M_W.pdf t.85

Yn yr un traethawd, tynnir sylw at ddau ddyfyniad o eiriau Iwan Llwyd ei hun ar y mater hwn. Daw'r cyntaf o erthygl dan y teitl 'Telynegu Gwleidyddiaeth' a gyhoeddwyd yn Barddas 214 (Chwefror 1995), t. 4, ac mae'n dangos sut y mae Iwan yn gweld y berthynas rhwng llenyddiaeth a gwleidyddiaeth yn ganolog i waith y bardd:

Bu'r berthynas rhwng llenyddiaeth a gwleidyddiaeth yn un ddeinamig yng Nghymru'r ganrif hon. Os na wna y genhedlaeth nesaf o sgrifennwyr sylweddoli'r wefr a ddaw o harneisio grym y gair i hyrwyddo newid, yna mae rhywun yn pryderu ynglŷn â dyfodol barddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg fel cyfrwng cyffrous a dylanwadol.

BARDD: **IWAN LLWYD**

CERDD AR Y FANYLEB: **ANEIRIN**

Yn yr ail ddarn yma, datgelir hefyd sut y mae Iwan Llwyd yn teimlo cyfrifoldeb i ysgrifennu am bethau anodd. Gan ddyfynnu o ysgrif 'Y Teithiwr Talog', (A470: What's On In Literary Wales/Beth sy' mlaen yn llên Cymru?, 35 Medi/Hydref 2005, t. 5), clywir Iwan Llwyd yn siarad am ymweld ag un o wersylloedd crynhoi'r Natsiaid yng Ngwlad Pwyl a sylweddoli ei bod yn: '[rh]an o gyfrifoldeb bardd a sgwennwr i ddatgelu'r corneli tywyll hyn, o'r gorffennol ac yn ein hoes ni'.

Rhyfel a Rhyfela

Ynghlwm ag ymateb i wleidyddiaeth, roedd ysgrifennu am ryfel yn beth pwysig hefyd yng ngolwg Iwan, fel y dywedodd yn benodol wrth drafod y gerdd **Aneirin**:

... rhan o gyfrifoldeb beirdd a newyddiadurwyr ar hyd yr oesau ydi cofnodi hanes a helynt pobol, a milwyr cyffredin. Gobeithio ein bod yn dal i wneud hynny.

Mae'n gêm o ddau fileniwm, t. 110

Yn wir, gwelwn fod rhyfel a rhyfela wedi bod ar feddwl y bardd ers ei ieuenctid. Mewn ysgrif yn y gyfrol deyrnged i'r bardd, *Awen Iwan*, mae Twm Morys yn edrych ar farddoniaeth yr Iwan Llwyd ifanc gan gynnwys y cerddi a ysgrifennodd yn fachgen ysgol. Mae'n nodi mai un o'r profiadau cynnar a effeithiodd arno oedd gweld yr Awyrlu Brenhinol (RAF) yn gorymdeithio drwy ddinas Bangor wedi i Awyrlu'r Fali dderbyn rhyddid y ddinas. Roedd y seremoni'n cael ei chynnal tu allan i Eglwys Gadeiriol Bangor, eglwys a sefydlodd Deiniol Sant 'nôl yn y 6ed Ganrif. Roedd hyn wedi cythruddo'r bardd ifanc, a lluniodd gerdd i ymateb i'r digwyddiad sy'n gorffen gyda'r cwpled:

Rhoi rhyddid y ddinas yn nwylo'r Estron pell

A chaethiwo'r Cymry yn nyfnder eu cell.

Awen Iwan, t. 20

Flynnyddoedd yn ddiweddarach, fel hyn y disgrifiodd Iwan Llwyd y profiad:

Dyna'r ffin ar waith, y ffin rhwng rhyfel a heddwch, rhwng traddodiad militaraidd Prydain a hen grefydd Geltaidd Cymru, rhwng grym milwrol llywodraeth Loegr a'r man lle gorwedd Owain Gwynedd.

Awen Iwan, t. 20

BARDD: IWAN LLWYD

CERDD AR Y FANYLEB: ANEIRIN

Teithio

Mewn cyfweiliad yn *Golwg*, yn Haf 1999, dywedodd Iwan Llwyd: 'Dw i wastad wedi licio'r syniad o deithio a chyfansoddi wrth deithio. [...] Y daith ei hun sy'n bwysig a dyna ydw i'n ei fwynhau' (*Mae'n gêm o ddau fileniwm*, t. 107). Yn wir, roedd Iwan Llwyd yn gweld bywyd fel taith, a byddai'n aml yn llofnodi ei lyfrau gyda chyfarchiad megis 'diolch am rannu'r daith'. Byddai'n mwynhau teithio i bob cwr o Gymru, ac, fel ei arwr barddol T H Parry Williams, roedd teithio dramor hefyd yn ei ysbrydoli. Croesodd Fôr yr Iwerydd i America, y Gogledd a'r De, ac mae ôl y profiadau hynny yn amlwg ar ei waith.

Does dim rhyfedd felly ei bod hi'n anodd cyfyngu Iwan Llwyd i un ardal yn unig, roedd y byd i gyd yn rhan o'i gynefin. Doedd e ddim chwaith yn perthyn i un rhan o Gymru'n unig, oherwydd er ei fod wedi treulio ei blentyndod a'i laslencyndod yng ngogledd Cymru, ymfalchïai yn ei gysylltiadau â de orllewin Cymru drwy linach ei fam. Yn yr un modd, ar ryw olwg, ni ellir ei gyfyngu i un amser, er ei fod yn fardd cwbl gyfoes, oherwydd un o nodweddion ei waith yw'r modd y mae'n chwalu ffiniau amser drwy ddod â gorffennol a hanes Cymru i'r byd modern. Gwelwn esiampl o hyn yn *Aneirin*, lle mae'r ffigwr o hen hanes y Cymru, Aneirin y 6ed ganrif, yn ymddangos ar faes y gad yn Kampuchea, Y Somme a Gogledd Iwerddon.

Gellir gweld felly pam fod y bardd Llion Jones wedi disgrifio Iwan Llwyd fel un 'sans frontières', y bardd heb ffiniau: 'I raddau helaeth, er mor amlwg yw'r ffin yn ei waith, mae Iwan Llwyd yn fardd *sans frontière* a'i filltir sgwâr yn fyd-grwn.' (*Mae'n gêm o ddau fileniwm*, t. 119).

Yn ddim ond 52, daeth taith feidrol Iwan i ben. Ond er na chafodd fyw i weld henaint mawr, llwyddodd i gyflawni llawer yn ystod ei fywyd gan adael trysorau mawr yn storfa llenyddiaeth Cymru.

BARDD:
IWAN LLWYD

CERDD AR Y FANYLEB:
ANEIRIN

Cyd-destun y Gerdd

ANEIRIN

Gyda'th gamera a'th helmed
disgynnaist o'r hofrennydd
prin filltir o'r frwydr,

yna'i gwadnu hi'n dy gwrcwd
am y lloches agosaf, a'r ergydion
yn ffrwydro'n yfflon o'th gwmpas:

heibio i sgerbydau llosg y tanciau
a lludw'r cyrff gwag, y milwyr briwiedig
a'r cig amrwd a fwydai frain,

baglaist a syrthiaist drwy'r mwd,
gan godi weithiau i dynnu llun
dyn yn lladd mewn lliw:

mewn du a gwyn,
yng Nghatraeth a Kampuchea,
y Somme a'r Chwe Sir,

megaist gyfaredd a chyfarwyddyd,
a heidiai'r hogia i ateb dy gwestiynau
a dilyn â'u llygaid ragluniau'r lens:

rhoddaist iddynt fri a oroesai frwydr
a chip ar dragwyddoldeb
yn awen ddiuedd y newyddiadurwr.

Dan Anesthetig t. 22

BARDD: IWAN LLWYD


CERDD AR Y FANYLEB: ANEIRIN

Mae'r gerdd yn cyfeirio at feysydd rhyfel enwog ar hyd y byd gan ddechrau yng Nghatraeth, lle bu brwydr fawr yn y 6ed ganrif. Brwydr sydd wedi ei chofnodi yng ngherdd y bardd Aneirin ac sy'n dechrau gyda'r llinellau enwog:

Gwŷr a aeth Gatraeth oedd ffraeth eu llu
Glasfedd eu hancwyn a gwenwyn fu
Trichant trwy beiriant yn catáu
A gwedi elwch, tawelwch fu.

Drwy gyfeirio at ystod o frwydrau mewn gwahanol le ac amser mae'r bardd yn pwysleisio bod hanes yn ailadrodd ei hunan ac nad oes dim byd newydd yn yr hanes. Mae rhyfel mor greulon heddiw ag erioed, ac ofn neu ysfar milwyr i oroesi yn wyneb perygl marwolaeth yn gryf, gymaint felly nes eu bod yn chwilio am ffyrdd o anfarwoli eu hunain.

Yn yr adran 'Studio 4 Cerdd' yn *Mae'n gêm o ddau fileniwm*, (t. III) fe'n hatgoffir o ba mor agos yw marwolaeth at filwr ac am 'sut y byddai milwyr y rhyfel mawr yn mynd i gael tynnu llun mewn iwnniform ac am filwyr America cyn Rhyfel y Gwlff yn mynd i adael eu had mewn banciau ysbytai.' Dyma pam fod y milwyr yn y gerdd **Aneirin** yn ysu am gael tynnu eu llun – dyma yw ei '[c]ip ar dragwyddoldeb'.



Dyma'r dudalen o *Lyfr Aneirin* sef llawysgrif werthfawr o'r 13 ganrif lle gwelir y gerdd am Catraeth. Mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi digido'r llawysgrif felly mae modd ei darllen hi ar-lein.

<https://www.llyfrgell.cymru/darganfod/oriel-ddigidol/llawysgrifau/yr-oesoedd-canol/llyfr-aneirin/#?c=&m=&s=&cv=&xywh=-99%2C-478%2C4453%2C3786>

BARDD: IWAN LLWYD

CERDD AR Y FANYLEB: ANEIRIN

Mae'r mapiau isod yn dangos lleoliad Catraeth, neu Catterick fel y mae'n cael ei alw heddiw. Roedd yn yr ardal a elwid gan y Cymry yn Hen Ogledd. Roedd hynny yn y dyddiau cyn bod Cymru, Lloegr, Yr Alban ac Iwerddon. Bellach mae'n rhan o ogledd Swydd Efrog.



https://en.wikipedia.org/wiki/Catterick,_North_Yorkshire
© Angusmclellan



https://en.wikipedia.org/wiki/Catterick,_North_Yorkshire
Yn cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron

Ar wahân i trwydr Catraeth, mae'r gerdd yn cyfeirio'n benodol at dair brwydr arall, set Kampuchea, y Somme a'r Chwe Sir.

Kampuchea

Rhwng 1975 ac 1979, bu'r wladwriaeth dotalitaraidd, Kampuchea, (dan rym y Khmer Rouge a'i harweinydd, Pol Pot) yn gyfrifol am farwolaethau miliynau o ddinasyddion trwy lafur gorfodol a dienyddiadau. Bu'r hanes enbyd hwn yn gefndir i'r ffilm enwog, *The Killing Fields*. Yn ffodus, daeth trefn waraidd yn ôl yn y pen draw i'r wlad a adnabyddir heddiw fel Cambodia.

Somme

Cychwynnodd brwydr enwocaf y Rhyfel Byd Cyntaf (1914-18) ar y 1af o Orffennaf 1916 yn ardal afon Somme yng ngogledd Ffrainc, gyda lluoedd yr Ymerodraeth Brydeinig yn ymosod ar ffosydd byddin Yr Almaen. Erbyn i'r gyflafan ddod i ben (ddim tan y mis Tachwedd, ac ond ychydig o dir wedi ei ennill), roedd yn agos at filiwn o filwyr wedi eu lladd neu wedi dioddef anafiadau erchyll.

Y Chwe Sir

Yn y cyfnod 1919 hyd 1921, ymladdwyd Rhyfel Annibyniaeth Iwerddon. Bu brwydro cyson ar yr Ynys Werdd rhwng yr 'IRA', a oedd am weld Iwerddon yn dod yn rhydd o'r Deyrnas Unedig, a'r fyddin Brydeinig. Y cyfaddawd a gytunwyd oedd y byddai gwladwriaeth newydd, yr 'Irish Free State' yn bodoli o 1922 ar gyfer y rhan fwyaf o Iwerddon ond y byddai chwe sir – Londonderry

BARDD: IWAN LLWYD

CERDD AR Y FANYLEB: ANEIRIN

(Derry), Tyrone, Fermanagh, Antrim, Down ac Armagh – yn parhau'n rhan o'r Deyrnas Gyfunol, dan yr enw 'Gogledd Iwerddon'.

Gan edrych eilwaith yn yr adran 'Studio 4 Cerdd' yn y gyfrol *Mae'n gêm o ddau fileniwm*, mae'n werth dyfynnu'r hyn sydd gan Iwan Llwyd ei hun i'w ddweud am **Aneirin** yn ei gyfanrwydd:

Roedd darllen cyfrol y newyddiadurwr Michael Herr, *Dispatches*, am ryfel Fietnam, yn ddylanwad mawr arna i. Cyfrol ydi hi am y rhyfel rhwng Fietnam ac America oedd yn gefndir i'm mywyd i ar hyd y chwedegau a'r saithdegau cynnar. Fe wnaeth un hanes am y milwyr yn heidio o amgylch hofrennydd a wnaeth lanio yn llawn newyddiadurwyr a ffotograffwyr cyn brwydr fawr, fy atgoffa o hanes Aneirin a'i gerdd fawr i'r Gododdin, un o lwythau olaf y Cymry yng ngogledd Prydain, er mwyn cael tynnu eu llun, dweud eu hanes. Onid dyna wnaeth Aneirin hefyd – ydan ni'n cofio enwau'r Saeson a'u lladdodd?
Mae'n gêm o ddau fileniwm t. 110

Ar ddiwedd yr adran am **Aneirin** yn yr un gyfrol (t. 111) tynnir sylw at y modd mae'r gerdd yn clymu ddoe a heddiw mewn ffordd arall hefyd, y tro yma drwy'r patrwm odli a chyflythrennu:

Perthynai'r bardd Aneirin i gyfnod cyn i'r gynghanedd a'r mesurau caeth gael eu cyfundrefnu ac mae odlau mewnol a chyflythrennu yn amlwg iawn yn ei linellau yntau yn ogystal. Unwaith eto, mae hyn yn rhoi teimlad o ddoe a heddiw'n cyfarfod yn y gerdd.
Mae'n gêm o ddau fileniwm t. 111

Yn y gerdd sy'n wynebu **Aneirin** yn y gyfrol *Dan Anesthetig* sef **Tommy Reilly** (t. 23), gwelwn sut y mae'r bardd yn ymdrin eto â thynged y milwr, ac unwaith eto yn tynnu sylw at y llinyn cyswllt sydd rhwng milwyr waeth ar ba ochr maen nhw'n ymladd.

Mae'r gerdd hon yn cofnodi'r drasiedi a ddigwyddodd pan lofruddiodd milwr Prydeinig 18 oed o'r enw Iain Thain fachgen ifanc o Belfast, Thomas 'Kidso' Reilly, 22 oed. Mae'r gerdd yn llawn cyfeiriadau at ganeuon pop y cyfnod gan fod Kidso Reilly yn frawd i chwaraewr drymiau *Stiff Little Fingers* ac yn gweithio ar y pryd fel trefnydd i *Bananarama*. Cafodd y milwr ei ddedfrydu i oes o garchar ond ymhen llai na thair blynedd roedd yn ôl yn rhengoedd byddin Prydain.

Mae'n werth nodi fod Jim Reilly (y brawd a'r drymiwr) wedi esbonio mewn cyfweiliad yn y *Belfast Telegraph* sut roedd e wedi maddau i'r milwr ifanc yn syth:

"It takes strength to get through it," Jim explains. "The way I look at it, the guy was 18-years-old when he shot him dead. Do you remember when you were 18? You knew nothing. To give 18-year-old men, who are working-class, guns and then send them to another county

BARDD: **IWAN LLWYD**

CERDD AR Y FANYLEB: **ANEIRIN**

to sort out other working-class kids, it ain't gonna work. I forgave him right away. It wasn't his fault, you know. He didn't sit down to shoot my brother. When you're 18 years old, you're still a child. He was just a triggerman."

<https://www.belfasttelegraph.co.uk/life/features/stiff-little-fingers-jim-reilly-on-forgiving-soldier-who-killed-brother-when-youre-18-years-old-youre-still-a-child-yourself-36828209.html>

Dyma ddau bennill cyntaf y gerdd sy'n gorffen gyda'r dyddiad 'Awst 1983' mewn cromfachau:

Tommy Reilly

Mae'n debyg i'r milwr a'th saethodd
Tommy Reilly,
ddawnsio ganwaith i ias caneuon
Bananarama a'r Jam,
a charu
am y tro cyntaf efallai,
yn un â churiad drymiau
Stiff Little Fingers:

Yr oeddet o'r un genhedlaeth
Tommy Reilly,
â'r milwr hwnnw a ddychrynodd
yn fflamau haf Belfast
a saethu,
am y tro cyntaf efallai,
yr un fwled reddfoll
i eithaf byw dy gefn [...]

Dan Anesthetig t. 23



BARDD: IWAN LLWYD

CERDD AR Y FANYLEB: ANEIRIN

Nid yw Iwan Llwyd yn gweld bai ar y milwyr ond yn hytrach ar 'y drefn' ac fel hyn mae'r gerdd yn cloi:

y drefn roddodd heibio ddawnsio a'r ddawn
i garu'n
un â churiad drymiau
Stiff Little Fingers

y drefn a'th lofruddiodd di.

(Awst 1983)

Dan Anesthetig t. 23

Yna, yn y gyfrol *Dan Fy Ngwynt*, mae'r gerdd **Cofio'r Somme 1916** yn ymateb i'r profiad o wyllo'r teledu ar 'noson gyfforddus o Orffennaf' a gweld dynion yn gosod croesau ar feddau ar faes y gad ac yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng profiad y milwr a phrofiad y gweddi. Fel hyn y mae'n disgrifio hiraeth a gobeithion y milwyr sydd wedi goroesi'r gyflafan ym mhennill olaf y gerdd:

yn gweld tu hwnt i gollnod marwolaeth,
yn gweld tu draw,
yn gweld tŷ, yn gweld trefn, yn gweld tegwch
na welwn ni am na welsom
farwolaeth yn syllu'n syth atom
yn ffos agored.

Dan Fy Ngwynt t. 55

Mewn cerdd arall sy'n gyfieithiad o waith Edward Bond, **First World War Poets**, mae Iwan Llwyd yn ddi-flewyn-ar-dafod ei feirniadaeth:

Beirdd y Rhyfel Mawr (Edward Bond)
Aethoch yn braidd i'r ffosydd
a breffu trueni
ac yn nrewdod lladd-dai diwylliant
bugeilir eich cân

[...]

BARDD: IWAN LLWYD

CERDD AR Y FANYLEB: ANEIRIN

A'ch plant?
Bu farw miliynau o blant
am i chi ymladd o blaid y'ch gelynion
yn hytrach nac yn eu herbyn.
nid anghofiwn ni.
Ni faddeuwn ni.

Dan Anesthetig tt. 18–19

Yn yr un gyfrol, *Dan Anesthetig*, ceir cerdd ar yr un thema ond o safbwynt heddwch. Mae **Cadw'r Heddwch** yn gerdd eironig a phwerus am y trais sydd ei angen yn honedig i 'gadw'r heddwch'. Yn y gerdd hon, fel yn **Aneirin**, gwelwn fyd heb ffiniau Iwan Llwyd:

Yn y dwyrain canol
yn Ne Affrica bell
yn Nicaragua, Iwerddon
rhaid cael cyffion a chell
i gadw'r heddwch.

Dan Anesthetig t. 30

Mae cerdd arall sy'n werth tynnu sylw ati yn y gyfrol *Dan fy Ngwynt* am ei bod yn dangos sut y mae'r bardd yn teimlo i'r byw wrth sylwi ar ôl trais ar hyd y byd.

Dyma eiriau clo'r gerdd **Pasg yn Nulyn**:

[...] ac am dri y p'nawn.

i gyfeiliant clychau'r Pasg o gadeirlan San Padrig
mae ôl y bwledi'n glwyfau byw yn y cledrau cerrig.

Dan fy Ngwynt t. 54

BARDD: **IWAN LLWYD**

CERDD AR Y FANYLEB: **ANEIRIN**

Ac eto, sylwch ar y pwyslais mae'n rhoi ar 'faddau' yn y llinellau sy'n arwain at y cwpled clo ac sy'n ein hatgoffa o Derfysg y Pasg yn Iwerddon a'r Swyddfa Bost a oedd am gyfnod byr yn bencadlys yr arweinwyr:

[...] Ac o ganol y sgwrsio

a'r segura yn Kehoughs, O'Donoghues a McDaid's
medrai gyffwrdd â chryfder go iawn,
cryfder cadarn fel drws derw, fel mam yn maddau,
fel colofnau'r llythyrdy,

Dan fy Ngwynt t. 54

Wrth bori drwy waith Iwan Llwyd felly, fel y mae'r esiamplau uchod yn ei ddangos, gwelir sut y mae'r themâu a amlygir yn **Aneirin** yn codi dro ar ôl tro yn ei waith. Yn y gyfrol, *Awen Iwan*, mae Alan Llwyd yn crynhoi cyfraniad Iwan drwy ddweud:

Oedd, roedd yn credu mewn gwthio'r ffiniau a thorri'r rheolau, ond nid trwy anwybyddu'r gorffennol y gwneid hynny. Ein traddodiad yw un o'n prif arfau yn y frwydr i amddiffyn hunaniaeth cenedl.

Awen Iwan t. 198

BARDD: **IWAN LLWYD**

CERDD AR Y FANYLEB: **ANEIRIN**

Llyfryddiaeth a Darllen Pellach

Llyfryddiaeth

Llwyd, I. 1983. *Sonedau Bore Sadwrn*, Y Lolfa.

Llwyd, I. 1987. *Dan Anesthetig*, Gwasg Taf

Llwyd, I. 1992. *Dan fy Ngwynt*, Gwasg Taf

Ap Dafydd, M a Llwyd, I. (gol.) 1994. *Cywyddau Cyhoeddus*, Gwasg Carreg Gwalch

Llwyd, I. 1997. *Dan Ddylanwad – Cerddi 'Mericia, Canada a Chymru*, Gwasg Taf

Llwyd, I. a Morys, T. 1999. *Llwybrau dau i le diarth Eldorado*, Gwasg Carreg Gwalch

Ap Dafydd, M. a Llwyd, I. (gol.) 2002. *Mae'n gêm o ddau fileniwm*, Gwasg Carreg Gwalch

Llwyd, I. a Morys, T. 2003. 'Be di blwyddyn rhwng ffrindia?' *Cerddi 1990-1999*, Gwasg Taf

Llwyd, I. 2007. Hanner Cant, Gwasg Taf.

Llwyd, I. 2009. *Sonedau Pnawn Sul*, Gwasg Carreg Gwalch

Morys, T. (gol.) 2014. *Awen Iwan*, Barddas

Darllen Pellach

Y tyst (Aneirin)

Cerdd gan Ifor ap Glyn o'i gyfrol *Waliau'n Canu* ac a welir yn *Cuddle Call?* tt. 148–150

Diolchiadau

Gyda diolch i Gyhoeddiadau Barddas, Gwasg Carreg Gwalch a Gwasg Taf am eu caniatâd i gynnwys dyfyniadau a cherddi yn y nodiadau hyn. Cedwir yr hawlfraint ym mhob achos gan y cyhoeddwy.